# Apêl Anrhegion Nadolig 2024

## Gwasanaethau Plant Blaenau Gwent

Teuluoedd yn Gyntaf Families First · Dechrau'n Deg Flying Start · Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council · Blaenau Gwent Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Family Information Service

**Hoffai staff Canolfan Integredig i Blant Blaenau fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gyfrannodd at Apêl y Nadolig eleni. Eleni, fe wnaethom newid y ffordd yr ydym yn rhedeg ein Hapêl Nadolig a gofyn i aelodau'r cyhoedd gyfrannu anrhegion personol i blant unigol yn seiliedig ar eu diddordebau eu hunain.**

Cawsom ein llethu gan haelioni'r cyhoedd a'n syfrdanu gan yr amser a'r meddwl a gafodd eu rhoi i'r anrhegion a roddwyd. Roeddem hefyd yn hynod ddiolchgar am y rhoddion tegan ychwanegol a'r rhoddion arian parod a gawsom eleni. Roedd y rhoddion hael hyn yn sicrhau bod bagiau anrhegion y plant yn llawn i'r ymylon ac y gallem brynu unrhyw anrhegion ar gyfer enwebiadau hwyr.

Aeth y rhoddion a gawsom eleni ymlaen i gefnogi rhai o'r teuluoedd mwyaf agored i niwed ym Mlaenau Gwent ac, fel tîm, rydym mor ddiolchgar i'n cymunedau a sefydliadau lleol am eu holl waith anhygoel a'u cefnogaeth hael.

Eleni, derbyniodd pob plentyn a enwebwyd fag anrhegion personol yn seiliedig ar ei hoff bethau, yr oedd wedi rhoi gwybod amdanynt yn flaenorol i'w weithiwr cymorth. Sicrhawyd bod pob plentyn yn derbyn bocs o eitemau amrywiol yn ei fag anrhegion hefyd!

Yn 2024, llwyddwyd i gefnogi cyfanswm o 262 o blant a phobl ifanc ar draws y sir gyfan! Mae'r nifer hwn yn ein hatgoffa'n fawr o hyd o'r heriau y mae teuluoedd ym Mlaenau Gwent yn eu hwynebu wrth i'r argyfwng costau byw hwn barhau.

Hoffem hefyd fynegi ein diolch i'r holl staff o dimau o fewn Gwasanaethau Plant a wnaeth yr apêl hon yn bosibl. Heb eu gwaith caled, ni fyddai apêl o'r maint hwn yn gallu rhedeg ac ni fyddem yn gallu cefnogi cymaint o deuluoedd ag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd.

Ac, yn olaf, hoffem unwaith eto **DDIOLCH YN FAWR** iawn i bawb a gymerodd ran yn ein Hapêl Nadolig 2024. P'un a wnaethoch chi enwebu teulu, cyfrannu at yr apêl, didoli'r bagiau anrhegion neu ddosbarthu'r anrhegion – fe wnaethoch chi helpu i wneud apêl eleni yn llwyddiant ysgubol!

**Dyma beth oedd gan rai o'n teuluoedd i'w ddweud am fod yn rhan o'r apêl:**

**"Roedd cael yr anrheg Nadolig i'm merched yn teimlo'n dda iawn. Roedden nhw mor hapus ac wrth eu boddau ac rydyn ni, y rhieni, hefyd yn hapus i weld ein merched yn hapus iawn ac â mwy o deganau i chwarae â nhw. Diolch."**

"Diolch yn fawr iawn am y teganau - roedden nhw wrth eu bodd. Treuliodd fy ngwr a'm plant y diwrnod i gyd yn ei adeiladu ac yn mynd ag e allan i'w hedfan a'i yrru. Diolch yn fawr am bopeth."

**"Does gennych chi ddim syniad faint rydyn ni'n eich gwerthfawrogi chi. Rydych chi wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i mi ac mae gennych chi le enfawr yn ein dwy galon. Rydych chi'n anhygoel."**

"Rydw i eisiau dweud diolch enfawr, ar ran y plant hefyd, am yr holl help rydych chi wedi ei roi i ni eleni. Rydych chi wedi bod yn achubiaeth lwyr i mi ac rwy'n teimlo mor ffodus i gael eich help. Nadolig llawen a gwela i chi yn y flwyddyn newydd".

F: 01495 369610 fis@blaenau-gwent.gov.uk www.bgfis.org.uk

Canolfan Plant Integredig y Cymoedd Canol, Stryd Fawr, Blaenau, Blaenau Gwent. NP13 3BN

# Apêl Anrhegion Nadolig 2024

## Gwasanaethau Plant Blaenau Gwent

**Mae Gwasanaethau Plant Blaenau Gwent yn diolch i bawb a gyfrannodd yn garedig i Apêl Anrhegion Nadolig 2024:**

**Abi Rees**
Abbiegale Foote
**Abertillery & Blaina Rotary**
Adelle
**Adrian Banks**
Ally Broom
**Alison Case**
Amie Louise Poole
**Andrea Jones**
Angharad Day
**Ann-Marie Bolton**
Beth Stone
**Brogan Rossini**
Cai Stone
**Carly Watkins**
Carmen Edwards
**Caroline Banks**
Cath Davies
**Catherine Walter**
Chelsie Meredith
**Claire Smith**
Councillor Jo Wilkins
**Cllr Malcom Day**
Cricket Club and Fire Service Ebbw Vale
**Dani Davies**
Daniel Silman
**Danielle Nancarrow**
Deb Markham
**Del Nash**
Delme Nash
**Demi Nash**
Denise Cook
**Derrick Bevan**
Ebbw Vale Wetherspoons
**Ellen Fewings**
Elouise Qwaq
**Emily Davies**
Emma Duggan
**Gail Williams**
Gareth Bird
**Gaynor Bowen**
Gemma Finn
**Georgia Price**
Georgetown Primary School
**Gill Phillips**
Glan Rhyd Surgery
**Hannah Ide**
Hannah Morgan
**Heather Carter McGaughey**
Holly & Debra Tapper
**Ian Price**
Jackie Brown
**Jade Robinson**
Jane Rhys
**Janine Brill**
Jayden Dean Llewellyn
**Jeff Morgan & Julia Pritchard**
Jenna Davies
**Jess**
Jo Battman
**Jo Hussy**
Kayleigh Edmunds
**Keri Hulme-Webb**
Kirsty Hughes
**Kirsty Sheridan**
Krystina Morgan
**Ladies of Tredegar Shopping Trip**
Laura James
**Laura Mcdermott**
Lauren Davies
**Lisa Marie Trimm**
Lorna Sulway
**Lucie Boardman**
Luisa Carini-Davies
**Lynda Withers**
Lynne Price
**Lynne Young**
Martine Redfern
**Mell Morton**
Mia Nash
**Molly Williams**
Nat Hill
**Natalie Crandan**
Natasha Hall
**Natasha Lewis**
Nathan Shenton
**Niamh Daley**
Nic Jones
**Nicole Bird**
Nicky Allen
**Nigel Sullivan**
Nyree Hughes
**Olga Baran**
Paige Stone
**Patricia and Nigel Smith**
Paul Warren
**Paula Adams**
Rachel Bridges
**Rachel Evans**
Rachel Wadley
**Rebecca Price**
Rebecca Thomas
**Safran Seats**
Sandra Marshman
**Sarah Adlam**
Sarah Shaw
**Sarah Thomas**
Samantha Hale
**Samantha Hancock**
Shauna Edwards
**Sian Bowen**
Sofa Sofa
**Sophie Davies**
South Wales Fire and Rescue
**Stacey Meredith**
Stefanie Pearce
**Summer Thomas**
Susan Whitelow
**Terry Fraser**
Tesco
**Tia Meredith**
Tina McDonald
**The Can Aderyn Singers**
Tracy Evans
**Trade Centre Wales**
Tredegar Gym
**Tredegar Health Visiting Team**
Tredegar District Nursing Team
**Tredegar Town Council**
Tricia Hulme
**Vicky Nash**
Victoria Motor Company
**Vickie Dampier**
Vikki Curtis
**Yuasa Batteries**









F: 01495 369610 fis@blaenau-gwent.gov.uk www.bgfis.org.uk
Canolfan Plant Integredig y Cymoedd Canol, Stryd Fawr, Blaenau, Blaenau Gwent. NP13 3BN